

## Cyfarfodydd a Phwyllgorau

- Bydd pob hysbysiad ar gyfer cyfarfod cyhoeddus yn ddwyieithog.
- Yn achos darlithiau cyhoeddus a drefnir gan y brifysgol neu gan adrannau academiaidd, bydd teitl y ddarlith yn ymddangos yn yr iaith y traddodir hi, er y dylai'r holl wybodaeth arall (e.e dyddiad, amser a lleoliad) fod yn Gymraeg a Saesneg, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf ac uwchben
- Bydd y rhybudd a ddsberthir i alw cyfarfodydd a phwyllgorau mewnol yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Bydd rhybudd agenda a chofnodion cyrff penodol o fewn y sefydliad sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn ddwyieithog.
- Bydd agenda pob pwyllgor sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor a'r Senedd yn ddwyieithog.
- Bydd hawl gan unrhyw bwyllgor neu gorff mewnol fynegi dymuniad i dderbyn ei gofnodion neu ddogfennau penodol mewn ffurf ddwyieithog.
- Bydd gan aelodau pob awdurdod mewnol neu bwyllgor neu gyfadran yr hawl i annerch cyfarfod yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Bydd gan unrhyw aelod o'r cyhoedd neu'r staff sy'n rhan o wrandawriad cyfreithiol neu wrandawriad disgyblaethol yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnir iddynt nodi eu dymuniad o flaen llaw fel y gellir gwneud trefniadau priodol ar gyfer cyfieithu.

Gweler Cynllun Iaith Gymraeg: 4.3-4

- Ceir enghreifftiau o rybuddion cyfarfodydd, agenda a chofnodion dwyieithog.
- Gall y taflenni cymorth sy'n cynnwys cyfeithiadau o ddyddiadau, teitlau pwyllgorau a chyfarfodydd, adeiladau ac ystafelloedd fod yn ddefnyddiol hefyd.
- Cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (est. 2045) am gyngor pellach a'r Uned Gyfieithu er mwyn trefnu cyfieithu ysgrifenedig neu gyfieithu ar y pryd.